

# Bwyta'n Iach

*2007 - 2009*

## Rhagair


Mae'r berthynas rhwng bwyd ac iechyd a sut mae'r naill yn effeithio ar y llall yn elfen amlwg yn ein bywydau heddiw, trwy gyfrwng y cyfryngau, byd gwaith, y cartref, ysgolion, gweithgareddau hamdden a'r byd gwleidyddol. Mae bwyta'n iach yn 'fusnes i bawb' ac mae Her Iechyd Cymru yn cadarnhau'r angen am ymrwymiad y boblogaeth gyfan er mwyn newid ein dull o fyw mewn ffyrdd cyraeddadwy a chynaliadwy. Mae'r budd sydd i'w gael o fwyta'n iach bellach yn amlwg a'r sialens felly yw creu cyfleoedd i hybu a chynnal unigolion a chymunedau i fabwysiadu arferion bwyta'n iach sy'n gynaliadwy ac **sy'n bosib eu cynnwys yn ein bywyd bob dydd.**

Mae comisiynu, datblygu a gweithredu *Bwyta'n Iach* yn elfen allweddol o'r Strategaeth Iechyd Da, ac yn cadarnhau ymrwymiad y Bwrdd Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles i gefnogi gweithgareddau sy'n cyfrannu at leihad yn y cyflyrau a'r clefydau allweddol sy'n achosi'r rhan fwyaf o afiechyd a marwolaeth gynamserol yn y sir, ynghyd â hybu iechyd da.

Mae *Bwyta'n Iach* yn nodi'r hyn sydd ar y gweill ar gyfer 2007 - 2009, i gefnogi'r rhai sy'n byw, yn gweithio neu yn ymweld â Sir y Fflint, i gael budd o gyfleoedd i fwyta'n iach. Mae'n un o dri chynllun gweithredu sy'n cael eu datblygu yn Sir y Fflint: datblygwyd *Bwyta'n Iach* ar yr un pryd â *Heini am Oes* i gydnabod pwysigrwydd bwyta'n iach a bod yn fwy gweithredol i iechyd a lles, a bydd y trydydd cynllun gweithredu, a fydd yn amlinellu ymateb Sir y Fflint i reoli gordewdra, yn cael ei gynhyrchu yn 2007.

Mae gweithredu ar y cyd gyda phartneriaid, ac ymrwymiad i gymunedau a grwpiau targed a nodir yn y cynllun gweithredu yn hanfodol os ydym am weld y prosiectau sydd eisoes yn bodoli, a gweithgareddau newydd yn cael yr effaith orau posib ar wella iechyd yn Sir y Fflint.

Roeddwn yn croesawu'r cyfle i fod yn rhan o ddatblygiad y cynllun gweithredu hwn, a *Heini am Oes*, ac rwy'n edrych ymlaen at barhau'r gwaith, mewn partneriaeth ag eraill ar hyd a lled Sir y Fflint, i weithredu a monitro'r cynlluniau gweithredu i gyd. .



Dr Angela Tinkler  
Cyfarwyddwr Cysylltiol Iechyd y Cyhoedd  
Sir y Fflint

Ar ran Bwrdd Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles

## **Cydnabyddiaeth**

Diolchir yn ddiffuant i bawb a fu'n rhan o ddatblygu'r cynllun hwn. Mae'r rhain yn cynnwys aelodau'r grŵp llywio a chyfeirio (a restrir yn yr atodiad) a nifer o gydweithwyr sydd wedi nodi a chytuno â'r hyn sy'n ddisgwyliedig ganddyn nhw, eu sefydliad neu wasanaeth er mwyn hybu a chynyddu cyfleoedd am well iechyd a lles.

Diolchir ymlaen llaw am yr ymdrech a'r gwaith caled fydd eu hangen i droi'r cynllun yn realiti.

Cydnabyddir hefyd waith a chyflawniad ystod eang o unigolion a sefydliadau ymrwymedig a brwdfrydig sydd wedi, ac yn parhau i weithio, i hybu a chefnogi bwyta'n iach.

## Cynnwys

- 1 Cyflwyniad, nod a chwmpas y cynllun
- 2-3 Cyd-destun cenedlaethol a lleol
- 3 Tueddiadau Maethol
- 5 Beth yw diet sy'n hybu iechyd?
- 6 Beth fydd yn helpu pobl i gael budd o ddiet sy'n hybu iechyd?
- 6 Egwyddorion Sylfaenol
- 6 Beth yw pwrpas y cynllun hwn?
- 7 Monitro ac arfarnu
- Tablau gweithredu:
- 8-12 **Y boblogaeth gyfan:** yn cynnwys lleoliadau yn y cartref a'r gymuned, addysg a chodi ymwybyddiaeth, hybu buddion/ mynediad at ddiet sy'n hybu iechyd
- 13-16 **Plant a Phobl Ifanc (0-25):** Lleoliadau mewn Ysgolion a Cholegau \*
- 17-18 **Plant a Phobl Ifanc (0-25):** Lleoliadau Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- 19-21 **Plant a Phobl Ifanc (0-25):** Lleoliadau yn y cartref a'r gymuned.
- 22-23 **Pobl Hŷn (50+):** Lleoliadau Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- 24-25 **Pobl Hŷn (50+):** Lleoliadau yn y cartref a'r gymuned.
- 26-30 **Pobl sydd mewn perygl o dderbyn maeth gwael**
- 31 Adborth Ymgynghoriad
- Atodiadau
- 33 Ffeithiau sylfaenol am Fwyd ac Iechyd
- 35 Crynodeb o gynlluniau a strategaethau cenedlaethol allweddol
- 38 Aelodau Grŵp Llywio

### \*Nodyn Pwysig

Mae rhai agweddau yn yr adran hon sy'n gymwys i oedolion sy'n astudio, yn gweithio neu'n ymweld â cholegau addysg bellach.

## Cyflwyniad

Enw'r cynllun hwn yw "Bwyta'n Iach", i gydnabod y cyfraniad cadarnhaol mae ein bwyd yn ei wneud i'n hiechyd a'n lles.

Mae bwyta diet amrywiol a chytbwys trwy'n hoes yn sylfaenol i fyw'n iach, ac yn help i warchod y corff rhag ystod o gyflyrau bygythiol ac i gynnal ein hegri. Yn ogystal, mae tystiolaeth gynyddol sy'n cysylltu'r maeth rydym yn ei gael â'n hiechyd a'n lles meddyliol, ac mae'n gydnabyddedig bod ein stad feddyliol yn dylanwadu ar y bwydydd rydym yn eu bwyta. Mae paratoi bwyd a bwyta yn ganolog i nifer o ddiwyddiadau a dathliadau cymdeithasol yn ogystal, ac mae'r cyfleoedd i fwyta ystod o fwydydd sy'n tarddu o wahanol rannau o'r byd yn adlewyrchu ein hamrywiaeth ddiwylliannol gynyddol.

Fodd bynnag, yn genedlaethol yn ogystal â'n lleol, nid yw lles unigolion a'r gymdeithas gyfan yn cael ei gydnabod yn llawn, gyda lefelau gordewdra, er enghraifft, yn ychwanegu at y pryderon nad yw nifer o bobl yn dilyn egwyddorion diet iach. Yn ogystal, cydnabyddir nad yw trigolion Sir y Fflint i gyd yn cael yr un cyfleoedd i gael budd o ddietau sy'n hybu iechyd.

Mae comisiynu, datblygu a gweithredu "Bwyta'n Iach" yn ymateb i amcanion o fewn y Strategaeth Iechyd Da ac yn cadarnhau ymrwymiad y Bwrdd Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles i gefnogi gweithgareddau sy'n cyfrannu at leihad yn y cyflyrau a'r clefydau allweddol sy'n achosi'r rhan fwyaf o afiechyd a marwolaeth gynamserol yn y sir, ynghyd â hybu da.

Mae *Bwyta'n Iach* yn nodi'r hyn sydd ar y gweill am y 3 blynedd nesaf i gynyddu cyfleoedd pawb sy'n byw, yn gweithio neu'n ymweld â Sir y Fflint i gael budd o ddietau iach a chytbwys.

## Nod

Nod y cynllun yw cyfrannu at leihad mewn ffactorau risg sy'n gysylltiedig â diet mewn cyflyrau tymor hir a difrifol sy'n achosi'r rhan fwyaf o waeledd a marwolaeth yn y Sir, ac i hybu iechyd da a lles.

## Cwmpawd y Cynllun

Cydnabyddir bod yr agenda bwyd a maeth yn un eang iawn ac mae cyfeirio at yr holl ffactorau sy'n cyfrannu at ddietau sy'n hybu iechyd tu hwnt i gwmpawd cynllun gweithredu 3 blynedd. Rhagwelir fodd bynnag, y bydd y cynllun hwn yn gosod seiliau cadarn i ddatblygiadau'r dyfodol trwy:

1. Gwella polisiâu ac arferion y budd ddeiliaid sy'n darparu bwyd yn y sector statudol a gwirfoddol.
2. Cefnogi gweithgaredd lleol trwy wella mynediad at wybodaeth addas, a:
3. Datblygu medrau a sgiliau ar lefel leol i gynnig negeseuon allweddol cyson ac addas a chefnogi newid.

Yn anffodus, mae'n bosib na fydd y cynllun hwn yn delio â blaenoriaethau a phryderon pawb.

Bydd Asesiad Anghenion manwl (a elwir yn Cam 2), yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio'r strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles nesaf, a bydd yn ceisio nodi a blaenoriaethu'r materion hyn er mwyn canfod y camau nesaf yn yr ymdrech dymor hir.

Mae'n bwysig pwysleisio hefyd bod y cynllun hwn wedi ei ddatblygu fel cynllun atal cynradd i gyfrannu at atal afiechyd yn hytrach na delio â materion sy'n ymwneud â diet wrth drin a chefnogi unigolion gyda chyflwr tymor hir. Felly, nid oes gweithdrefnau sy'n delio'n uniongyrchol ag amgylchedd ysbyty gan fod hyn yn rhan o gylch gwaith grwpiau eraill.

## **Cyd-destun Cenedlaethol y Cynllun**

Mae'r agenda bwyd a maeth yn bwysig yng Nghymru ac yng ngweddill y DU.

Mae Her Iechyd Cymru yn atgoffa unigolion a sefydliadau o'r cyfrifoldeb sydd gan bawb i gymryd camau cadarnhaol i wella lles ac iechyd pobl Cymru.

Ystyriodd y grŵp llywio Bwyta'n Iach flaenoriaethau maethiad a'r gweithredu a nodwyd yn y dogfennau allweddol canlynol, wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu. (Gweler atodiad am fwy o fanylion)

1. Bwyd a Lles – Lleihau anghyfartaledd trwy strategaeth faeth i Gymru 2003<sup>7</sup>
2. Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Iach yng Nghymru (Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol, 2005)<sup>9</sup>
3. Bwyd a Ffitrwydd – hyrwyddo Bwyta'n Iach a Gweithgaredd Corfforol i Blant a Phobl Ifanc Cymru (Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol, 2006)<sup>12</sup>
4. Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru (Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol, Medi 2005)<sup>15</sup>
5. Buddsoddi mewn Dechrau Gwell: Hyrwyddo Bwydo o'r Fron yng Nghymru (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2001)<sup>17</sup>
6. Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Pobl Hŷn yng Nghymru (Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol, Dogfen Ymgynghorol, Gorff 2005)<sup>10</sup>
7. Safonau FfGC Clefyd Siwgr (Cymru), (Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol, Gwanwyn 2003)<sup>16</sup>

Mae Safon 1 y fframwaith yn nodi y bydd y GIG yn datblygu, gweithredu a monitro strategaethau i leihau'r risg o ddatblygu Clefyd Siwgr, Teip 2 yn y boblogaeth yn gyfan a lleihau'r anghyfartaledd yn y risg o ddatblygu Clefyd Siwgr, Teip 2.

8. Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Clefyd y Galon, (Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol, Gorff 2001)<sup>13</sup>

Mae Safon 1 y fframwaith yn nodi y dylai'r GIG ac asiantaethau partner ddatblygu, gweithredu a monitro polisïau i leihau ffactorau risg Clefyd y Galon yn y boblogaeth yn gyfan, a lleihau'r anghyfartaledd yn y risg o ddatblygu Clefyd y Galon.

9. Cynllun Oes, (Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol, Mai 2005)<sup>18</sup>

10. Safonau Maeth Prydau Ysgol (& Blas am Oes)<sup>14</sup>

Datblygwyd Bwyta'n Iach ar yr un pryd â "Blas am Oes" sy'n cynnwys 41 o gynigion i'w hystyried erbyn Hydref 31ain 2006. Mae'r cynigion hyn yn amlinellu'r anghenion ledled Cymru, i sicrhau ymdriniaeth ysgol gyfan tuag at wella maethiad. Mae'r ddogfen hon yn rhoi amlinelliad o'r hyn sy'n cael ei ystyried yn angenrheidiol i sicrhau ymdriniaeth gytbwys a chydlynol tuag at wella.

Os bydd y ddogfen derfynol yn unol â'r hyn a gynnigir yn y ddogfen ymgynghorol, bydd angen gweithredu'n llawn erbyn 2010. Bydd yn rhaid cytuno ar sut i weithredu'r anghenion sy'n cael eu nodi yn y ddogfen derfynol ac ystyrir hyn pan fydd y manylion terfynol ar gael.

11. Cyfarwyddyd Cynllun Ysgolion Iach

Mae cyfarwyddyd ar gael ynghyd â chyfleoedd rhwydweithio i gefnogi gweithredu'n lleol i gwrdd ag amcanion y Cynllun Ysgolion Iach. Mae ysgol sy'n hybu iechyd yn weithredol wrth hybu a gwarchod iechyd corfforol, meddyliol a chymdeithasol ei chymuned trwy weithredu'n gadarnhaol. Gellid cynnwys gweithgaredd diet sy'n hybu iechyd fel un elfen. D.S. Mae "Blas am Oes" a chynllun "Bwyd a Ffitrwydd" yn cynnwys cynigion pellach parthed y Cynllun Ysgolion Iach.

12. Tlodi Bwyd a Phobl Hŷn (Cyngor Defnyddwyr Cymru, Awst 2006)

### **Cyd-destun Lleol**

"Bwyta'n Iach" yw'r cynllun gweithredu cyntaf o'i fath i gynnwys Sir y Fflint yn ei chyfanrwydd.

Fodd bynnag, mae cynnwys y cynllun hwn yn gyson â nodau ac amcanion nifer o gynlluniau, strategaethau a phartneriaethau'r Sir, gan gynnwys y Strategaeth Gymunedol, Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc, Cynlluniau Iechyd a Lles Cymunedau'n Gyntaf a Strategaeth Pobl Hŷn.

### **Tueddiadau Maethol**

Nododd *Arolwg Iechyd Cymru* (CCC 2005) yn ddiweddar bod

- 52% o oedolion Sir y Fflint ar hyn o bryd dros eu pwysau neu yn ordew, o'i gymharu â 54% yng Nghymru.
- 39% o oedolion yn Sir y Fflint yn dweud eu bod wedi bwyta 5 neu fwy o ddarnau o ffrwythau a llysiau yn ystod y diwrnod blaenorol, yr un faint â'r cyfartaledd Cymreig.

Nododd yr arolwg hwn hefyd bod 40% o oedolion Sir y Fflint yn dweud bod eu cymeriant alcohol arferol yn uwch na'r canllaw dyddiol sy'n cael ei argymhell, gyda 17% yn nodi bod eu diwrnod o yfed trymaf yn yr wythnos flaenorol yn uwch na'r trothwy 'sbri'.

Darparwyd tystiolaeth o wahaniaethau economaidd cymdeithasol mewn patrymau bwyd a lefelau maeth yn yr Arolygon Diet a Maeth Cenedlaethol<sup>19</sup>. Er enghraifft, ymysg oedolion roedd cymeriant ffrwythau a llysiau yn is mewn dynion a merched sy'n derbyn budd-daliadau o'i gymharu â'r rhai nad ydynt yn derbyn budd-daliadau. E.e. llai na 2 cyfran y dydd o'i gymharu â mwy na 3 mewn merched. Nodwyd canfyddiadau tebyg ymysg plant.

Roedd astudiaeth *Pobl Ifanc yng Nghymru, ymddygiad iechyd mewn plant oed ysgol (Young People in Wales, Health Behaviour in School Aged Children)* (HBSC) (LICC 2002) yn nodi bod merched yn llai tebygol na bechgyn i fwyta brecwast, cinio canol dydd a phryd fin nos yn ddyddiol, yn enwedig y rhai rhwng 15-16 oed. Yn y flwyddyn 2000, roedd llai na hanner y merched rhwng 13-16 oed yn nodi eu bod yn bwyta brecwast yn ddyddiol. Bu cynnydd yng nghymeriant melysion a diodydd melys ymysg bechgyn. Mae cymeriant llaeth sy'n is mewn braster wedi codi, ond mae'r nifer o fechgyn a merched 15-16 oed sy'n bwyta ffrwythau ffres yn ddyddiol yn llai yn y flwyddyn 2000 nag yn 1990. Roedd llai na hanner y grŵp oedran hwn yn bwyta ffrwythau yn ddyddiol yn 2000. Mesurwyd lefelau gordewdra mewn pobl ifanc 11, 13 a 15 oed o fewn cyfres o arolygon gan yr HSBC (Llac 2004).

Mae'r gyfradd o bobl ifanc 15 oed sydd dros eu pwysau neu'r ordew yng Nghymru yn uwch na'r gyfradd yn yr Alban a Lloegr. Mae cymariaethau rhyngwladol yn awgrymu bod y diet yn debyg i lawer o wledydd eraill gorllewin Ewrop yn yr arolwg, ond fod cymeriant ffrwythau dyddiol yn is yng Nghymru nag mewn llawer o wledydd eraill, yn enwedig ymysg bechgyn.

### **Bwydo o'r Fron**

Bwydo o'r fron yw'r ffordd naturiol o fwydo baban ac mae'n cynnig nifer o fuddion i warchod iechyd y fam (lleihad yn y risg o gancr y fron a'r ofarïau ac osteoporosis) a'r baban (lleihau'r risg o ddatblygu clefyd siwgr, clefyd y galon, gordewdra a nifer o heintiau amrywiol). Fodd bynnag, mae llai na hanner y babanod sy'n cael eu geni yn Sir y Fflint yn cael cynnig llaeth y fam. Argymhellodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu mentrau megis ymgyrraedd at achrediad Cyfeillgar i Fabanod Unicef, sy'n cael effaith gadarnhaol ar hybu a gwarchod bwydo o'r fron ymhob rhan o Gymru. Gosodir targed cyfredol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o 2% o gynnydd blynyddol yn y nifer o famau sy'n dechrau bwydo o'r fron a chynnydd o 5% yn flynyddol yn y babanod sy'n parhau i gael eu bwydo o'r fron yn 8 wythnos oed.

### **Dysgu o Brofiad**

Cafodd Bwyta'n Iach dystiolaeth o ffyrdd effeithiol o weithio i wella maethiad. Gellir gweld fframwaith weithredu parthed maeth, a chrynodeb diwygiedig o dystiolaeth o ran ymyriadau trwy ddilyn y cysylltiadau i wefan Gwasanaeth Iechyd y Cyhoedd<sup>20</sup>

## Beth yw Diet sy'n Hybu Iechyd?

Fel arfer, mae diet iach (ar wahân i blant bach) yn seiliedig ar fara, tatws a grawnfwydydd eraill ac mae'n gyfoethog mewn ffrwythau a llysiau. Mae diet iach yn cynnwys swm cymedrol o laeth a chynnyrch llaeth, cig, pysgod neu fwydydd cig/llaeth amgen (er enghraifft yn cynnwys dewisiadau llysieuol neu fegan), a symiau cyfyngedig o fwydydd sy'n cynnwys braster a siwgr. Ni all unrhyw fwydydd unigol gynnig yr holl faetholion sydd eu hangen ar y corff. Mae'n bwysig felly bwyta amrywiaeth eang o fwydydd i gynnig y fitaminau, mwynau a ffibr priodol, sy'n hanfodol ar gyfer iechyd da.<sup>3</sup>

Mae'r darlun isod sy'n dangos Cydbwysedd Iechyd Da yn cael ei ddefnyddio i ddangos pa ganran o'r mathau gwahanol o fwydydd y dylid eu bwyta yn ddyddiol i warchod ein hiechyd.



Trwy gydol y cynllun hwn, defnyddir diet sy'n hybu iechyd i ddisgrifio diet fydd yn:

- ✓ helpu i gynnal pwysau corff iach (sy'n golygu peidio bod o dan bwysau na thros bwysau/gordew)
- ✓ hybu lles yn gyffredinol
- ✓ lleihau'r risg o nifer o afiechydon gan gynnwys clefyd y galon, trawiad, rhai enghreifftiau o gancr a chlefyd siwgr.

Bydd diet sy'n hybu iechyd hefyd yn cynnwys cyflenwad digonol o hylif di-alcohol i hybu iechyd a lles.

Mae rhai ffeithiau cyffredinol am fwyd ac iechyd yn yr atodiad. Gellir cael mwy o wybodaeth am y canllawiau maeth diweddaraf ar [www.eatwell.gov.uk](http://www.eatwell.gov.uk)

## Bwyd - Cymdeithas, Diwylliant a Chrefydd.

Yn y cyflwyniad, nodwyd y cyswllt clòs rhwng diwylliant, crefydd, credoau eraill a bwydydd. Wrth ddatblygu a gweithredu syniadau yn y cynllun hwn rhoddir ystyriaeth ddyledus i sicrhau bod y gweithredu yn addas ar gyfer anghenion y boblogaeth amrywiol sy'n gweithio a byw yn Sir y Fflint.

## **Beth fydd yn helpu pobl i gael budd o ddietau sy'n hybu iechyd?**

Ni fydd dweud wrth bobl bod bwyta diet iach cytbwys yn llesol i'w hiechyd yn ddigonol, yn y rhan fwyaf o achosion. Bydd y rhan fwyaf angen cefnogaeth i wneud y newidiadau angenrheidiol i'w ffordd o fyw. Nododd y Strategaeth Iechyd Da bod angen ymdriniaeth gynhwysfawr i hybu iechyd a lleihau'r risg o afiechyd. Datblygwyd gweithdrefnau "Bwyta'n Iach" yn unol ag arferion da rhyngwladol parthed hybu iechyd<sup>8</sup>. Nodir gan y rhain bod yn rhaid i'r gweithdrefnau arwain at y canlynol i gyd er mwyn gwella iechyd.

1. Polisiâu sy'n hybu iechyd a lles
2. Yr angen i'r amgylcheddau rydym yn byw, gweithio a threulio amser hamdden ynddynt i gefnogi iechyd.
3. Rhaid i unigolion a chymunedau fod ynghlwm â'r penderfyniadau a chael cyfle i fod â lefel o reolaeth a dewis.
4. Rhaid cynnig cymorth i unigolion a chymunedau i ddatblygu sgiliau a chynyddu eu dealltwriaeth o ffactorau sy'n effeithio ar iechyd.
5. Gwasanaethau iechyd a chymdeithasol sy'n effeithiol, effeithlon a hygyrch i bawb, ac sydd â rôl bwysicach mewn (er enghraifft) rhwystro afiechyd a chlefydau.

## **Egwyddorion Sylfaenol**

Wrth weithredu'r cynllun hwn, bydd y canlynol wastad yn cael eu hystyried.

1. Lleihau anghydraddoldeb  
Yn cynnwys cynhyrchu gwybodaeth mewn ffurfiau hygyrch (gan gynnwys print mawr, ystod o ieithoedd, iaith glir ac iaith sydd yn addas ar gyfer unigolion sydd ag anhawster dysgu neu lefelau isel o lythrennedd)
2. Hybu bod yn rhan o'r broses
3. Datblygu gweithredu cynaliadwy.  
Yn cynnwys ystyried effaith ehangach y gweithredu yn amgylcheddol .

## **Ar gyfer pwy mae'r cynllun hwn?**

Trwy gynyddu'r cyfleoedd ac ymdrin â rhai o'r ffactorau sy'n ei gwneud yn anodd bwyta diet cytbwys (y rhwystrau), mae potensial gan y cynllun hwn i fod o fudd i bawb sy'n byw, yn gweithio neu'n ymweld â Sir y Fflint. Fodd bynnag, trwy ddatblygu a chytuno ar weithdrefnau, rhoddwyd ystyriaeth benodol i anghenion y grwpiau canlynol:

### **▪ Pobl sy'n fwy tebygol o gael trafferth wrth gael gafael ar fwydydd iach**

Diffiniwyd tlodi bwyd fel 'anallu i fforddio neu gael gafael mewn bwydydd sy'n cynnig diet iach'<sup>7</sup> Mae, felly, yn ymestyn y tu hwnt i agweddau economaidd i gynnwys agweddau megis hygyrchedd, ethnigrwydd ac addysg. Yn nodweddiadol mae'r rhai sy'n dioddef tlodi bwyd yn dioddef o gyfyngiadau ariannol ar ôl talu costau byw eraill, yn byw mewn

ardaloedd lle mae cyfyngiadau ar ddewis o fwydydd, cyfyngiadau o ran teithio i siopau mwy, neu yn brin o wybodaeth, sgiliau neu gyfarpar coginio sy'n angenrheidiol i baratoi prydu iach.<sup>7</sup>

Mae'n fwy tebygol o gynnwys:

Pobl hŷn, gofalwyr, pobl gydag anableddau corfforol, pobl gyda diffyg ar y synhwyrau neu anawsterau dysgu, pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig (o ganlyniad i ddiffyg adnoddau yn lleol, unigrwydd ac ati), pobl ar incwm isel, pobl sy'n camddefnyddio alcohol neu sylweddau eraill neu sy'n dioddef o broblemau afiechyd meddwl.

- **Pobl sydd ag anghenion maeth penodol o ganlyniad i'w hoed neu eu cyfnod mewn bywyd.**

Mae anghenion maeth yn newid yn ystod ein bywyd.

Bydd hyn yn cynnwys, plant ifanc, plant a phobl ifanc (gan gynnwys rhai sy'n derbyn gofal) merched sydd mewn oed i gael plant (yn enwedig merched beichiog) a phobl hŷn.

## Monitro ac Arfarnu

Argymhellir y dylid sefydlu grŵp newydd yn dilyn ymgynghoriad a drafftio terfynol y cynllun hwn. Bydd y grŵp gweithredu "Bwyta'n Iach" yn cefnogi a monitro gweithredu'r cynllun ac yn adrodd yn ôl i'r Grŵp Cydlynu Rhwydwaith Lles.

Bydd adroddiadau ar gynnydd yn cael eu cyflwyno ddwywaith y flwyddyn i'r Bwrdd Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles trwy gadeirydd y Grŵp Cydlynu Rhwydwaith Lles.

## Tablau Gweithredu.

Datblygwyd y tablau gweithredu o dan y penawdau isod:

1. **Y boblogaeth gyfan:** yn cynnwys lleoliadau yn y cartref a'r gymuned, addysg a chodi ymwybyddiaeth, hybu buddion/ mynediad at ddietau sy'n hybu iechyd
2. **Plant a Phobl Ifanc (0-25):** Lleoliadau mewn Ysgolion a Cholegau \*
3. **Plant a Phobl Ifanc (0-25):** Lleoliadau Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol
4. **Plant a Phobl Ifanc (0-25):** Lleoliadau yn y cartref a'r gymuned.
5. **Pobl Hŷn (50+):** Lleoliadau Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol
6. **Pobl Hŷn (50+):** Lleoliadau yn y cartref a'r gymuned..
7. **Pobl sydd mewn perygl o dderbyn maeth gwael**

### \*Nodyn Pwysig

Mae rhai agweddau yn yr adran hon sy'n gymwys i bob person ifanc (16+) ac oedolion sy'n astudio, yn gweithio neu'n ymweld â cholegau addysg bellach.

**Tabl 1**

**Gweithredu i gwrdd ag anghenion y boblogaeth gyfan:**

***Gan gynnwys addysg a chodi ymwybyddiaeth; hybu budd /hygyrchedd diet iach a phwysau iach***

Rhesymeg: Nod y gweithredu hyn yw:

- Codi ymwybyddiaeth pwysigrwydd maeth da i iechyd a lles cadarnhaol a rhwystro afiechyd
- Cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd diet iach a chytbwys.
- Datblygu sgiliau i ddewis a pharatoi prydau iach ar eich cyfer chi eich hunan a'r teulu
- Gwella hygyrchedd i fwydydd 'iach' fforddiadwy

Cyf	Gweithred	Canlyniad	Tasgau (Amlinelliad)	Amser	Prif gyfrifoldeb ( <i>partneriaid</i> )	Adnoddau	Mesur perfformiad (a gwaelodlin)
1.	Cynyddu argaeledd a hybu dewisiadau bwydydd iach yng nghyfleusterau hamdden SyFf	Cadarnhau negeseuon 'ffyrdd iach o fyw'  Creu amgylchedd i gefnogi dewis iach	Nodi gwaelodlin y ddarpariaeth  Datblygu polisi bwyd ar gyfer Canolfannau Hamdden  Hybu marchnata dewisiadau iach yn y man gwerthu	Diwedd Chwef 2007  Ebrill 2007  Hydref 2007	Grŵp Bwyd a Hamdden (grŵp tasg a chwblhau'r Rhwydwaith Lles) Pennaeth Gwasanaethau Hamdden, rheolwyr Canolfannau, Arolygwr Arlwy, Adran Dieteteg YGDdC . Tîm Iechyd Da	I'w ystyried	Cynnydd yn argaeledd y dewisiadau iach o'r waelodlin  Gweithredu polisi iach  Cyflwyno technegau marchnata
2.	Hwyluso ymgyrraedd at Wobr Opsiynau Iach i leoliadau arlwy	Cynnal aelodau'r cyhoedd wrth wneud dewisiadau iach  Hybu ymglymiad y sector fusnes yn yr agenda gwella iechyd	Hybu'r nifer sy'n rhan o'r wobwr genedlaethol  Gwneud asesiadau o leoliadau  Rhannu Gwobrau (cyfyngedig o ran amser)	Lansio Cynllun Cenedlaethol Ebrill 2007	Adran Diogelwch Bwyd, Adran Iechyd yr Amgylchedd SyFf		Nifer o leoliadau sy'n derbyn gwobr

Cyf	Gweithred	Canlyniad	Tasgau (Amlinelliad)	Amser	Prif gyfrifoldeb ( <i>partneriaid</i> )	Adnoddau	Mesur perfformiad (a gwaelodlin)
3.	<p>Sicrhau argaeledd gwybodaeth berthnasol, addas a chyson am ddiet sy'n hybu iechyd, cynnal pwysau corff iach a chynnwys caloriffig diodydd alcoholig.</p> <p>(gall hyn gynnwys gwybodaeth am ansawdd bwyd, labelu a diogelwch bwyd)</p>	<p>Cynyddu ymwybyddiaeth o fuddion diet iach a chytbwys a'r risg sy'n deillio o ddiet gwael.</p> <p>Cynyddu'r ymwybyddiaeth o fuddion hydradiad priodol a'r risg i iechyd o hydradiad gwael</p> <p>Gwella llythrennedd iechyd</p>	<p>Ymgynnull grŵp o bartneriaid priodol a chreu rhestr o adnoddau sy'n cael eu hargymell</p> <p>Nodi trefn dosbarthiad a monitro – gan gynnwys sicrhau bod pobl sydd ddim yn defnyddio gwasanaethau yn cael eu targedu</p> <p>Cynnal gweithgaredd 'codi ymwybyddiaeth'</p>	<p>Ion 2007</p> <p>Ebr 2007</p> <p>Parhaol o Ebr 2007</p>	<p>Rhwydwaith Lles</p> <p>Cyngor Sir y Fflint</p>	<p>Cynhyrchu a darparu gwybodaeth mewn ystod o ieithoedd a ffurfiau - angen ystyried goblygiadau adnoddau.</p>	<p>Rhestr ar gael o adnoddau sy'n cael eu hargymell</p> <p>Trefn dosbarthiad a monitro wedi eu nodi</p> <p>Cyflawni nifer ac ystod gweithgaredd</p>
4.	<p>Edrych ar bosibilrwydd recriwtio a chynnig hyfforddiant achrededig i wirfoddolwyr i gynnig sesiynau yn y gymuned parthed bwyta'n iach a/neu gefnogaeth sylfaenol i baratoai a choginio bwyd</p>	<p>Cynyddu gwybodaeth a sgiliau'r rhai sy'n cymryd rhan a gwirfoddolwyr parthed bwyta'n iach.</p> <p>Cynyddu rhan y gymuned yn yr agenda bwyta'n iach</p>	<p>Nodi cyrsiau addas e.e. Cwrs Sgiliau Bwyd a Maeth Cymunedol</p> <p>Nodi gwirfoddolwyr</p>	<p>Gwaith i ddechrau Medi 2007</p>	<p>Calon Sir y Fflint</p> <p>Cydlynwyr Cymunedau'n Gyntaf</p> <p>Cydlynnydd Atebion Bwyd Age Concern Gogledd Ddwyrain Cymru</p> <p>YGDdC – adran ddieteteg (posibilrwydd o gynnig cyrsiau)</p>	<p>Cynnig cefnogaeth hyd Fawrth 2008</p> <p>Wedi ei ariannu hyd Gwanwyn 2007</p>	<p>Hyfforddi nifer o wirfoddolwyr</p> <p>Cynnal nifer o gyrsiau</p>

Cyf	Gweithred	Canlyniad	Tasgau (Amlinelliad)	Amser	Prif gyfrifoldeb ( <i>partneriaid</i> )	Adnoddau	Mesur perfformiad (a gwaelodlin)
5.	Cynllunio a chynhyrchu llyfr ryseitiau cymunedol a chanllawiau bwyta'n iach o fewn ardaloedd Cymunedau Gyntaf.	Yn cwrdd ag angen a nodwyd wrth asesu anghenion mapio Cymunedau'n Gyntaf  Hybu a gwneud trigolion lleol yn rhan o agenda 'bwyta'n iach' a 'gwella iechyd'	Nodi aelodau o'r gymuned sydd am fod yn rhan o'r gwaith  Casglu bwydlenni a chanllawiau gwybodaeth  Cynllunio a chynhyrchu adnodd cymunedol	Ebrill 2007  Haf 2007  Erbyn diwedd 2007	Cydlynwyr Cymunedau'n Gyntaf  Trigolion Lleol  YGDdC – Adran ddieteteg (cyngori)	I'w ystyried	Llyfrau ryseitiau a chanllawiau wedi eu cynhyrchu
6.	Datblygu'r angen a chynnal sesiynau 'coginio a bwyta' pellach yn y sir	Yn cwrdd ag angen a nodwyd wrth asesu anghenion mapio Cymunedau'n Gyntaf  Hybu a gwneud trigolion lleol yn rhan o agenda 'bwyta'n iach' a 'gwella iechyd'	Nodi 'rhaglen' hyfforddi addas  Hybu cyfleoedd hyfforddi i drigolion lleol/gwirfoddolwyr posib  Trefnu lleoliadau, cyfarpar a hyrwyddo sesiynau	Parhaol	Cydlynwyr Cymunedau'n Gyntaf		Nifer o sesiynau coginio a bwyta wedi eu cynnal
7.	Edrych ar gyfleoedd i ddatblygu/cynyddu'r nifer o gydweithfeydd bwyd yn y Sir	Cynyddu hygyrchedd bwyd fforddiadwy  Hybu ymglymiad cymunedol	Nodi meysydd blaenoriaeth i'w hystyried a'r ffordd o gyflwyno cynlluniau newydd	Parhaol	Cydlynwyr Cymunedau'n Gyntaf  Age Concern Gogledd Ddwyrain Cymru (Prosiect Atebion Bwyd)  Hwyluswyr Cydweithfeydd Bwyd		

Cyf	Gweithred	Canlyniad	Tasgau (Amlinelliad)	Amser	Prif gyfrifoldeb ( <i>partneriaid</i> )	Adnoddau	Mesur perfformiad (a gwaelodlin)
8.	Annog cydweithfeydd bwyd presennol a rhai newydd i gynnig gwybodaeth i gwsmeriaid parthed bwyta a hydradiad iach	Cynyddu ymwybyddiaeth o fuddion diet iach a chytbwys a'r risg sy'n deillio o ddietau gwael.  Gwella llythrennedd iechyd  Creu awyrgylch gefnogol	Nodi neu ddatblygu deunyddiau perthnasol  Darparu gwybodaeth i'w rannu gan Gydweithfeydd Bwyd		Cydlynwyr Cymunedau'n Gyntaf  Trefnwyr Cydweithfeydd Bwyd		Gwybodaeth iechyd gytunedig ar gael trwy Gydweithfeydd Bwyd
9.	Datblygu a hybu cwrs Sgiliau Bwyd a Maeth Cymunedol	Cynyddu gwybodaeth a sgiliau parthed bwyta'n iach i unigolion sy'n gweithio efo pobl sy'n fregus	Adolygu deunyddiau a ddefnyddir yn barhaol.  Hysbysebu a recriwtio ymgeiswyr  Sicrhau lleoliadau	Parhaol	YGDdC – adran ddietau  Hwyluso gan y Rhwydwaith Lles	Rhaid i'r cwrs hwn gael ei gynnal gan ddietau YGDdC	Nifer o gyrsiau wedi eu cynnal  Nifer o gyfranogwyr ar y cwrs
10.	Creu deunyddiau i hybu bwyta'n iach yn y man gwerthu yn lleoliadau arlwyo'r Cyngor Sir	Creu awyrgylch gefnogol	Datblygu ac arddangos deunyddiau hyrwyddo	Erbyn Hyd 2007	Grŵp Iechyd Corfforaethol  Gwasanaethau Arlwyo Sir y Fflint		Gweithgareddau hybu yn y man gwerthu
11.	Datblygu polisi bwyd sy'n berthnasol i bob digwyddiad a chyfarfod a gynhelir gan bartneriaid y Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles.  Bydd egwyddorion yn cynnwys argaeledd dewisiadau bwydydd a diodydd iach mewn cyfarfodydd, digwyddiadau ag ati	Creu awyrgylch gefnogol  Cadarnhau negeseuon hybu iechyd allweddol  Dangos ymrwymiad i'r agenda bwyta'n iach	Datblygu polisi arlwyo  Datblygu canllawiau i gefnogi swyddogion wrth t drefnu'r arlwyo ar gyfer digwyddiadau sy'n cael eu gwsteio yn allanol		Cyngor Sir y Fflint Bwrdd Iechyd Lleol Sir y Fflint YGDdC – adran ddietau	Yn berthnasol i'r lefel o waith fydd ei angen o fewn pob sefydliad	

Cyf	Gweithred	Canlyniad	Tasgau (Amlinelliad)	Amser	Prif gyfrifoldeb ( <i>partneriaid</i> )	Adnoddau	Mesur perfformiad (a gwaelodlin)
12.	Cyflawni a gweithredu Strategaeth Ddatblygu Gwledig	Cefnogi a hybu cynhyrchu bwyd lleol (gan gynnwys Menter Fwyd yr Wyddgrug)  Edrych ar gefnogi cynhyrchwyr, marchnata ar y cyd, trafnidiaeth a phacio a sbarduno gofyn. Gall hefyd gynnwys pobl yn tyfu eu bwyd eu hunain, amaethu yn y gymuned a pherllannau cymunedol		Drafft 2006  Gweithredu Haf 2007	Partneriaeth Wledig	I'w ystyried	
13.	Edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu adnoddau garddwriaethol/coginio/ addysgol ar y cyd yn y Sir	Datblygu sgiliau a gwybodaeth bersonol	Ffurio tasglu i nodi budd ddeiliaid, arian posib ag ati	Gwaith yn dechrau Meh 2007	Rhwydwaith Lles	Bydd angen arian sylweddol	

**Tabl 2**

**Gweithredu i gwrdd ag anghenion Plant a Phobl Ifanc (0-25): Lleoliadau mewn Ysgolion a Cholegau \***

Rhesymeg: Nod y gweithredu hyn yw:

- Sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n mynychu ysgol yn gallu cael pryd canol dydd a byrbrydau sy'n dda o ran maeth
- Cydymffurfio â safonau newydd prydau ysgol ac agwedd ysgol gyfan tuag at ddiets a maeth fel a nodir yn "Blas am Oes"
- Gweithredu argymhellion clwb brecwast Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Cyfeirio at, a chefnogi thema 'bwyta'n iach' o fewn y Cynllun Ysgolion Iach

**\*D.S. yn gymwys i bob person ifanc ac oedolion sy'n astudio, yn gweithio neu'n ymweld â cholegau addysg bellach.**

Cyf	Gweithred	Canlyniad	Tasgau (Amlinelliad)	Amser	Prif gyfrifoldeb ( <i>partneriaid</i> )	Adnoddau	Mesur perfformiad (a gwaelodlin)
14.	Parhau gyda datblygu rhaglen Ysgolion Iach a gweithio tuag at sicrhau bod ysgolion yn cynnwys gweithgaredd bwyd o fewn y rhaglen	Cynnwys 'bwyta'n iach' fel maes gweithredu mewn ysgolion sy'n rhan o'r Cynllun Ysgolion Iach  Agwedd ysgol gyfan tuag at fwyd a maeth yn cael ei chefnogi	Darparu gwybodaeth a hyfforddiant i staff mewn ysgolion i amlygu pwysigrwydd maeth priodol ar gyfer cyrhaeddiad addysgol	Parhaol	CSyFf: Cydlynedd Ysgolion Iach  AALI mewn partneriaeth â phenaethiaid a bwrdd llywodraethwyr ysgolion	Cynllun Ysgolion Iach wedi ei ariannu gan LICC	Nifer / % yn cynnwys 'bwyta'n iach' fel thema gydnabyddedig
15.	Gweithredu argymhellion/safonau o fewn "Blas am Oes"	Disgyblion ysgol yn cael cynnig pryd ganol dydd sy'n cynnwys y maeth priodol  Agwedd ysgol gyfan tuag at fwyd a maeth sy'n hybu dewisiadau bwydydd iach a datblygu sgiliau personol	Cytuno ar gynllun/proses weithredu leol	Yn unol â dyddiadau sy'n gynwysedi g yn y ddogfen derfynol sydd i'w chyhoeddi yn 2007	Cyfarwyddiaeth Addysg, Gwasanaethau Plant a Hamdden  Gwasanaethau Arlwyo Sir y Fflint  Cydlynedd Ysgolion Iach	I'w gadarnhau  LICC yn ymgynghori ar hyd a lled Cymru ar hyn o bryd.  Disgwyllir adnoddau	
16.	Cynyddu dealltwriaeth o egwyddorion diet cytbwys ymysg cogyddion sydd yng ngofal bwydlenni h.y. mewn ysgolion uwchradd	Staff yn fwy gwybodus a hyderus wrth wneud newidiadau cadarnhaol i gynllunio bwydlenni a gwasanaethau bwyd	Cynnal asesiad o anghenion hyfforddi  Cynllunio a chynnig rhaglen barhaol o hyfforddiant mewn swydd	Erbyn Mawr 2007  Mai-Gorff 2007	Gwasanaethau Arlwyo Sir y Fflint  YGDdC – Adran Ddiets		Nifer / % cogyddion yn mynychu hyfforddiant  Arfarniad ac ymateb gan cogyddion

Cytunwyd ar y gweithredu isod mewn ysgolion cyn cyhoeddi "Blas am Oes". Maent yn gyson â'r safonau a ragwelir ond nid ydynt yn rhestr ddihsbydd o'r anghenion a gellir bod angen eu newid.

Cyf	Gweithred	Canlyniad	Tasgau (Amlinelliad)	Amser	Prif gyfrifoldeb ( <i>partneriaid</i> )	Adnoddau	Mesur perfformiad (a gwaelodlin)
17.	Sefydlu 'Fforwm Bwyd mewn Ysgolion' ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd y sir.	Gwell cyfathrebu rhwng ysgolion.  Rhannu arfer da rhwng ysgolion.  Canfod materion ac atebion sy'n gyffredin, yn enwedig parthed safonau Blas am Oes	Gwahoddir yr holl ysgolion i anfon cynrychiolydd trwy'r fforwm penaethiaid, cyrff llywodraethol a chynghorau ysgol.	Erbyn Hyd 2007	Cydlynnydd Ysgolion Iach.  Gwasanaethau Arlwyio Sir y Fflint	Bydd angen chwilio am ffynhonnell ariannu er mwyn cynnal cyfarfod/digwyddiad cyntaf yn Hydref 07.	Cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn i adolygu cynnydd
18.	Datblygu a hybu polisi bwyd o fewn holl ysgolion Sir y Fflint.	Datblygu a chytuno ar bolisi.  Agwedd ysgol gyfan tuag at fwyd a maeth yn cael ei chefnogi	Samplau o bolisiau yn cael eu rhannu a'u hesbonio  Rhannu polisiau presennol rhwng ysgolion.		I'w hwyluso trwy gyfrwng y Fforwm Bwyd mewn Ysgolion  Prosiect Gweithredu ar Faeth Ysgol SNAP (ariannwyd hyd ddiwedd Mawrth 2007)	Arian tymor byr yn unig drwy Ysgolion Iach/Cymuned ol	Nifer o ysgolion sydd â pholisi bwyd
19.	Datblygu adnoddau i hybu dewisiadau iach yn y man gwerthu mewn ysgolion uwchradd.	Cefnogi dewisiadau iach ac agwedd ysgol gyfan.  Cynnig cyfle i blant a phobl ifanc i fod yn rhan o'r broses.	Gwahoddir plant a phobl ifanc i gynllunio logo a brandio ar gyfer deunydd hyrwyddo yn amlygu'r dewisiadau iach yn y man gwerthu. Cynhyrchu deunyddiau.		Gwasanaethau Arlwyio Sir y Fflint Cynghorau ysgol.  Fforwm Pobl Ifanc  Cydlynnydd Ysgolion Iach  Grwpiau Gweithredu ar Faeth Ysgol (SNAG)	Bydd angen chwilio am ffynhonnell ariannu	Y deunyddiau ar gael i'w defnyddio mewn ysgolion

Cyf	Gweithred	Canlyniad	Tasgau (Amlinelliad)	Amser	Prif gyfrifoldeb ( <i>partneriaid</i> )	Adnoddau	Mesur perfformiad (a gwaelodlin)
20.	Cynyddu'r dewisiadau iach mewn peiriannau fendio/safleoedd byrbryd mewn ysgolion.	Yn cefnogi dewis iach ac yn creu awyrgylch gefnogol yn yr ysgol	Cael gwared ar beiriannau fendio/eitemau anaddas mewn ysgol  Sicrhau argaeledd ffrwythau/byrbryda u iach		AALI Cydlynnydd Ysgolion Iach Penaethiaid Gwasanaethau Arlwyo Sir y Fflint Cynghorau Ysgol	Mae fendio mewn ysgolion yn ffynhonnell cyllid. Gall lleihad mewn cyllid effeithio ar ysgolion	Pob gwasanaeth fendio/byrbryd yn yr ysgol yn cynnig/hybu dewis iach erbyn Medi 2008
21.	Ymestyn menter brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd	Gwella cymeriant maeth disgyblion sy'n mynychu'r clwb brecwast  Gwella canolbwyntio a'r potensial i ddysgu	Pob ysgol gynradd i fod wedi cael cyfle i gymryd rhan erbyn Ionawr 2007.  Cynhwysir hyrwyddo parhaol i ysgolion nad ydynt yn cymryd rhan o fewn argymhellion Blas am Oes	Parhaol	AALI	Cynllun wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru	Nifer o ysgolion yn cynnig brecwast am ddim
22.	Bydd nyrsys ysgol yn cynnig cefnogaeth i staff ysgolion, gan gynnwys gwybodaeth am fwydo o'r fron, mewn ysgolion.	Bydd plant a phobl ifanc yn derbyn y wybodaeth gywir ac yn gallu gwneud dewisiadau deallus	Asiantaethau partner yn nodi a thrafod cyfleoedd	Ystyried o Ebrill 2007	YGDdC: Gwasanaeth nyrs ysgol (Adran ddieteteg) Cydlynnydd Bwydo Babanod  Cydlynnydd Ysgolion Iach	Angen ystyried adnoddau o fewn darpariaeth arian "Bwyd a Ffitrwydd" i YGDdC	Cofnod o gyfarfodydd/trafod aethau ac ymateb i ganfyddiadau
23.	Adolygu argaeledd, defnydd a chynnwys bocsys maeth ysgolion.	Sicrhau argaeledd a defnydd cyson o'r adnodd mewn ysgolion	Nodi bocsys maeth ac archwilio'r cynnwys ac ailgyflenwi yn ôl yr angen.	Cwblhau erbyn Mawrth 2007	Gwasanaeth Nyrs Ysgol mewn ysgolion cynradd  Cydlynwyr SNAG ysgolion uwchradd  (Gwasanaethau Arlwyo Sir y Fflint)	Dim ymrwymiad ariannol	Lleoliad bocsys yn eglur ac yn wybyddus i'r pennaeth

Cyf	Gweithred	Canlyniad	Tasgau (Amlinelliad)	Amser	Prif gyfrifoldeb ( <i>partneriaid</i> )	Adnoddau	Mesur perfformiad (a gwaelodlin)
24.	Cefnogi ysgolion yn y rhaglen ysgolion cymunedol i weithredu gweithgareddau a fydd yn hyrwyddo diet sy'n hybu iechyd.	Gwell cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r gymuned  Cynyddu gwybodaeth/sgiliau/hygyrc heddd diet sy'n hybu iechyd.	Datblygu cynlluniau gweithredu gan ysgolion sy'n cymryd rhan	Parhaol tan fis Mawrth 2008	AALI  YGDdC– Adran Ddieteteg (hyd Rhag 2006)	Mae rhaglen ysgolion cymunedol yn cael ei ariannu gan LICC tan ddiwedd Mawrth 2008 - tua £160k y flwyddyn	Nifer ac ystod gweithgareddau o fewn yr ysgolion sy'n cymryd rhan  Disgwyllir cynlluniau mewn 3 ysgol uwchradd erbyn Rhag 2006
25.	Datblygu cyfleoedd pellach i staff, myfyrwyr ac ymwelwyr Coleg Glannau Dyfrdwy i gael budd o ddiets sy'n hybu iechyd.	Cynyddu gwybodaeth a sgiliau  Cefnogi dewisiadau bwyd iach	I'w ddatblygu	Parhaol	Coleg Glannau Dyfrdwy		
26.	Cynyddu cyfleoedd i staff, myfyrwyr ac ymwelwyr Coleg Garddwriaethol Cymru i gael budd o ddiets sy'n hybu iechyd.	Cynyddu gwybodaeth a sgiliau  Cefnogi dewisiadau bwyd iach	Cynllunio a sefydlu diwrnod ymwybyddiaeth iechyd blynyddol.  Adolygu'r fwydlen a chyfleoedd darparu bwyd eraill i nodi ffyrdd pellach o gynnig dewisiadau bwyd iach  Datblygu deunyddiau i hybu dewis iach yn y man gwerthu  Datblygu polisi bwyd a maeth ar gyfer y coleg	Yn flynyddol o Ionawr 2007  O Ionawr 2007  O Ionawr 2007  O Ionawr 2007	Coleg Garddwriaethol Cymru		Arolwg wedi ei gyflawni  Deunydd wedi eu datblygu a'u gweithredu  Polisi wedi ei ddatblygu a'i weithredu

**Tabl 3: Gweithredu i gwrdd ag anghenion Plant a Phobl Ifanc (0-25): Lleoliadau Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

Rhesymeg: Nod y gweithredu hyn yw:

- Sicrhau bod plant a phobl ifanc fregus yn derbyn diet addas a maethlon yn unol â'u hoed a'u hamgylchiadau
- Sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal cymdeithasol neu gefnogaeth iechyd yn y gymuned yn cael eu cwrdd.

Cyf	Gweithred	Canlyniad	Tasgau (Amlinelliad)	Amser	Prif gyfrifoldeb ( <i>partneriaid</i> )	Adnoddau	Mesur perfformiad (a gwaelodlin)
